ROBERTS, THOMAS ROWLAND ('Asaph '; 1857? - 1940), cofiannydd

Enw: Thomas Rowland Roberts
Ffugenw: Asaph
Dyddiad geni: 1857?
Dyddiad marw: 1940
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cofiannydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yn Llanelwy. Bu am flynyddoedd yn glerc mewn swyddfeydd cyfreithwyr yng Nghaernarfon, yn gyfieithydd swyddogol ac yn ysgrifennydd llaw-fer yn y llysoedd. Am ychydig amser, yn 1901, bu yn golygu 'r *Genedl Gymreig* a phapurau eraill y swyddfa honno. Yn 1909 sefydlodd fusnes cyfrifydd ym Mae Colwyn, ac ef oedd ysgrifennydd cyffredinol yr eisteddfod genedlaethol a gynhaliwyd yno yn 1910, ac ym Mangor yn 1915. Bu farw ym Mae Colwyn 16 Mehefin 1940 yn 83 oed, a chladdwyd ef 19 Mehefin ' yng nghladdfa Bronynant. Ef oedd awdur *Edmund Prys*, 1899; *Y Monwyson*, 1902; *Eminent Welshmen*, 1908, sef geiriadur bywgraffyddol am y cyfnod 1700-1900; a *Huw Morus (Eos Ceiriog)*, 1910. Yn ei *Edmwnd Prys*, ceir argraffiad hwylus o brydyddiaeth Prys; a bu'r geiriadur bywgraffyddol (gyda'i gyfeiriadau helaeth) yn gymwynas fawr. Am ei weithiau eraill gweler Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u Gweithiau*, 1937.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

North Wales Weekly News, 20 Mehefin 1940

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361414

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu